

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod ^{29ain} Ebrill 2014

Presennol: A. Mummery, A. Jones, J. Roberts, Dennis Williams, , G. Parry, A. Thomas, H. Huws, , A. Williams, G. C. Jones
Cynghorydd Sirol J. Evans

1. Ymddiheuriadau: Mervyn Jones, Meirion Jones, B. Jones, P. Roberts

2. Datganiadau Diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Materion y Cyngor Sir

3.1 Postyn ar Lôn Hen Ysgol/Lôn Foelgraig wedi'i dynnu dros dro.

3.2 Modurdy ger Plas Garnedd/Plas Mona dim gwybodaeth bellach ar gael.

3.3 Caead traen wedi'i ddwyn o Lôn Dyfnia, y swyddog priodol yn Ynys Môn wedi'i hysbysebu.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion 25 Mawrth 2014

Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

5.1 Modurdy ger Plas Mona/Plas Garnedd - dim gwybodaeth bellach.

5.2 Cyfarfod Cyswllt CSYM a Chynghorau Tref a Chymuned - i drafod proses ymgynghori ar gyllideb y Cyngor Sir.

5.3 Cyfarfod 10 Ebrill - Buddiannau Cymunedau Lleol - adroddwyd na ddylid disgwyl unrhyw arian gan y datblygwyr tan o leiaf 2025 pan fydd y safle'n cynhyrchu egni. G.C.Jones i yrru'r adroddiad i aelodau'r Cyngor Bro.

Diolchwyd i G.C. Jones a H. Huws am fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor Bro.

5.4 Safle we - A. Jones wedi anfon e-bost gyda linc i'r safle we newydd . Nodwyd bod y safle dan waith ac nid yw'n fyw eto.

5.5 Cynllun Blodeuo - nodwyd bod hadau blodau gwylt a phabi coch a melyn wedi'u plannu.

5.6 Ardal di fwg wedi'i sefydlu yn Llanfairpwll, y cyntaf yn Ewrop.

5.7 Wast Niwclear - cyfarfod i'w gynnal ym mis Medi, annog pawb i fynychu.

5.8 Nodwyd bod Gareth Parry, aelod Ffrindiau Parc y Gors am drefnu cyfarfod gyda swyddog eiddo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn trafod y llecyn coed tu ôl i'r ganolfan iechyd.

5.9 Llongyfarchwyd Ffrindiau Parc y Gors ar gael gosod y twnnel helyg a'r "trim trail".

5.10 Maes Parcior Gors - R. G. Hire i ddod wythnos yma i edrych ar y safle ac i gynghori ar sut i wella'r arwynebedd.

5.11 Y Clerc yn bryderus nad oedd yr hysbyseb swydd wedi dangos ym mhapur mis Ebrill. Caniatwyd i'r Clerc hysbysebu'r swydd ar safle we'r Cyngor Sir.

6. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 8^{fed} Ebrill 2014

Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. C. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion

7.1 Y Clerc i wahodd Aled Lewis, swyddog AHNE y Cyngor Sir i'r cyfarfod ym mis Mehefin

7.2 Baneri - y Clerc i ofyn caniatâd gan y Cyngor Sir er mwyn gosod baneri i hysbysebu digwyddiadau yn y pentref.

7.3 Paentio Meinciau - cytunwyd i Colin Roberts ymgymryd â'r gwaith paentio fel rhan o'i ddyletswyddau. Nodwyd bod y meinciau, 2 safle bws Ffordd Penmynydd a'r swyddfa angen eu paentio.

8. Ceisiadau Cynllunio

31C134D - Cais amlinellol amlinellol i godi 5 annedd ger Cae Cyd - dim sylw ar y cynlluniau ond angen cadw mewn cof bod rhwystr ar y datblygiad gan Mr Brookes (Llys Eilian). Mae angen gwneud newidiadau i'r groesffordd cyn cychwyn adeiladu'r tai.

31C417 16 Lon y Wennol - dim sylw

31C416 Bryn Awelon - dim sylw

31C418 47 Cil y Graig - dim sylw

9. Cyfrifon mis Ebrill 2014

Cyflwynwyd taenlen a rhestr taliadau mis Ebrill 2014. Derbyniwyd anfoneb ychwanegol gan Medwyn Williams am £180. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

10. Gohebiaeth

10.1 CSYM gwahoddiad i'r Clerc fynychu hyfforddiant Cod ymddygiad ym mis Medi. I'w gadw wrth law ar gyfer y Clerc newydd.

10.2 CSYM - hysbyseb am ddadgomisynu CCTV - er gwybodaeth.

10.3 CSYM - penderfyniadau cynllunio - er gwybodaeth.

10.4 Llythyr gan Humphreys Waste Management yn hysbysebu fod prisiau wedi codi. Derbyniwyd y costau newydd.

11. Unrhyw Fater Arall

11.1 Ymgyrch gwrth beilonau - disgwyl datganiad gan y Grid Cenedlaethol erbyn diwedd yr haf. Nodwyd bod modd i Gynghorau Cymuned gynnal refferendwm lleol. H.Huws i ymchwilio sut i fynd ymlaen i gynnal un yn Llanfairpwll.

11.2 Ymgynghoriad Fferm wynt Rhiannon - H.Huws i lunio ymateb ar ran Cyngor Bro Llanfairpwll.

11.3 Cyngor Cymuned Felinheli yn gofyn am gefnogaeth cyngor Llanfairpwll gyda chais i Un Llais Cymru bleidleisio ar ymgynghoriad anghyfreithiol gan y Grid Cenedlaethol. Cytunwyd i gefnogi Cyngor Cymuned Felinheli.

11.4 Cyngor Cymuned Mechell yn creu rhestr o ddiddordeb mewn prosiectau ynni bychain. Datgan cefnogaeth.

11.5 Derbyniwyd cwyn ynglŷn â baw ci unwaith eto. Nodwyd bod y warden cwn yn cael gair a phobl yn hytrach na dirwyo troseddwy. Y Clerc i yrru adborth i'r swyddog.

11.6 Adroddodd A. Mummery bod ei gyfnod fel cadeirydd yn dod i ben ym mis Mai, diolchodd i bawb am eu cydweithrediad dros y 3 mlynedd diwethaf. Diolchodd G. Parry i'r Cadeirydd am ei holl waith ar ran y Cyngor Bro.

Dyddiad cyfarfod nesaf

Cyfarfod Blynyddol - Nos Fawrth 27ain Mai 2014 am 7.00 yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd (Cadeirydd)Dyddiad